O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif 144 (Cy. 36)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarcy), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

Gwnaed	*6 Chwefror 2018*
Yn dod i rym	*8 Chwefror 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarcy), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 8 Chwefror 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 8 Chwefror 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" *("the motorway")* yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd darnau cyfan ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarcy), Castell-nedd Port Talbot.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis fan hwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Chwefror 2018

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru